OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2446

## Rheoliadau Grant Prosesu a Marchnata Amaethyddol (Cymru) 2001

**Pwerau personau awdurdodedig**

**11.**—(1) Ar ôl cyflwyno rhyw ddogfen sydd wedi'i dilysu'n briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, os gofynnir iddo wneud hynny, caiff swyddog awdurdodedig fynd ar bob adeg resymol i unrhyw dir heblaw tir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ty annedd yn unig:—

(a) y mae cymorth ariannol neu ymrwymiad yn ymwneud ag ef, neu

(b) y mae ganddo sail resymol dros gredu bod dogfennau sy'n ymwneud â chymorth ariannol neu ag ymrwymiad yn cael eu cadw yno,

at unrhyw un o'r dibenion a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r dibenion hynny—

(a) archwilio'r tir y mae cymorth ariannol neu ymrwymiad yn ymwneud ag ef;

(b) cadarnhau bod unrhyw wybodaeth a roddwyd gan fuddiolwr sy'n ymwneud â chymorth ariannol neu ymrwymiad yn gywir; ac

(c) darganfod a yw buddiolwr wedi cydymffurfio ag ymrwymiad neu beidio.

(3) Caiff person awdurdodedig sydd wedi mynd i unrhyw dir o dan baragraff (1)—

(a) archwilio'r tir ac unrhyw ddogfen, cofnod neu offer arno, y mae'n credu'n rhesymol eu bod yn ymwneud â chymorth ariannol neu ag ymrwymiad;

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr, neu i unrhyw gyflogai, gwas neu asiant i fuddiolwr o'r fath, gyflwyno neu sicrhau y cyflwynir, unrhyw ddogfen neu roi unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol neu ymrwymiad;

(c) os oes unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (b) yn cael ei chadw drwy gyfrwng cyfrifiadur, mynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw offer neu ddeunyddiau cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi cael eu defnyddio i storio'r wybodaeth honno, a'i gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei chyflwyno mewn ffurf sy'n ddarllenadwy ac a all gael ei chymryd i ffwrdd;

(ch) ei gwneud yn ofynnol i gopïau neu ddetholiadau o unrhyw ddogfen neu gofnod arall o'r fath y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) neu (b) yn cael eu cyflwyno;

(d) cadw copi o unrhyw ddogfen a gyflwynir iddo; ac

(dd) cipio a chadw unrhyw ddogfen neu gofnod arall y mae'n credu'n rhesymol y gall fod eu hangen fel tystiolaeth mewn achos o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i fuddiolwr neu unrhyw gyflogai, gwas neu asiant i'r buddiolwr roi i berson awdurdodedig bob cymorth rhesymol mewn perthynas ag arfer ei bwerau o dan baragraffau (1) a (3).

(5) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd i unrhyw dir o dan baragraff (1) fynd yng nghwmni—

(a) unrhyw swyddog o'r Comisiwn, a

(b) unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol,

a bydd paragraffau (3) a (4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw bersonau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) wrth weithredu o dan gyfarwyddiadau person awdurdodedig, fel pe bai'n berson awdurdodedig.